

City & Guilds Lefel 2 Diploma i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt (7002-06)

Gorffennaf 2024, Fersiwn 3.0)

Llawlyfr y cymhwyster

Y Cymhwyster yn gryno

Maes pwnc	Trin Gwallt
Rhif City & Guilds	7002
Grŵp oedran cymeradwy	16-19, 19+
Gofynion mynediad	Dim
Mathau o asesu	Portffolio, Prawf amlddewis, Cwestiynau Atebion Byr
Cymeradwyo	Cymeradwyo llwybr carlam
Deunyddiau cefnogi	Ffurflenni cymeradwyo llwybr carlam; Llyfr log ymgeisydd; Llawlyfr y cymhwyster
Cofrestru ac ardystio	Edrychwch yn y Walled Garden/y Catalog Ar-lein i gael y dyddiadau cau

Teitl a lefel	ODDA	CAC	Rhif cymhwyster City & Guilds	Rhif Achredu Ofqual
City & Guilds Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt	682	853	7002-06	603/1379/1

Fersiwn a dyddiad	Newid manylion	Section
Fer 1 Gorffennaf 2023	Mewnbwn cychwynnol o ddata	
Fer 3-0 Gorffennaf 2024	Cyfanswm ODDA wedi'i gywiro	Y Cymhwyster yn gryno Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cynnwys

Heb ganfod tabl cynnwys.

1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthy ch beth sydd angen i chi ei wneud i ddarparu'r cymhwyster:

Maes	Disgrifiad
Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?	<p>Mae'r Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt yn gymhwyster sydd newydd ei greu yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr ac mae wedi cael ei ddylunio gan gyflogwyr i ddysgwyr sydd eisiau ennill cymhwyster galwedigaethol o fewn y diwydiant.</p> <p>Gall y Diploma arwain at gyflawni safon ST0213 f1.2 Prentisiaeth Trin Gwallt Proffesiynol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, neu gellir ei ddarparu fel cymhwyster sy'n sefyll ar ei ben ei hun.</p> <p>Cymhwyster yw hwn sydd wedi'i ddylunio ar gyfer dysgwyr sydd o leiaf yn 16 oed ac sydd eisiau datblygu'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gychwyn gweithio fel Triniwr Gwallt. Rhaid iddyn nhw fod wedi cwblhau cymhwyster Lefel 1 yn y maes pwnc perthnasol. Bydd dysgwyr sydd eisiau cwblhau'r cymwysterau hyn yn gwneud hynny fel prentis wedi'i gyflogi mewn amgylchedd gwaith go iawn.</p>
Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?	<p>Mae'r Diploma i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt yn cynnwys yr holl wybodaeth a sgiliau craidd sydd eu hangen i ddod yn Driniwr Gwallt cymwys. Mae'n darparu cyfle i'r dysgwr i ddatblygu gwahanol sgiliau drwy ddewis unedau dewisol. Mae cyfle hefyd i wneud uned ychwanegol mewn gwasanaethau estyniadau gwallt.</p>
Pa gyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer dilyniant?	<p>Gall dysgwyr sy'n ennill y Diploma i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt gael cyflogaeth mewn salon fel Barbwr, yn gwneud tasgau o ddydd i ddydd megis:</p> <ul style="list-style-type: none">• gwasanaeth cwsmeriaid• siampŵo gwallt

Maes	Disgrifiad
	<ul style="list-style-type: none"> • torri • steilio a gorffen gwallt • gwasanaethau lliwio.
Gyda phwy wnaethon ni ddatblygu'r cymhwyster hwn?	Mae'r Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt wedi cael ei greu o'r newydd yn seiliedig ar angen cyflogwyr ac wedi'i ddylunio gan gyflogwyr wedi'i alinio â safon Trin Gwallt Proffesiynol ST0213 v1.2.
Ydy'r cymhwyster yn rhan o fframwaith neu fenter prentisiaeth?	Mae'r Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt 7002-06 yn ofyniad porth ar gyfer safon Trin Gwallt Proffesiynol ST0213 f1.2.

Strwythur

Er mwyn cyflawni **Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt**, rhaid i ddysgwyr gyflawni pump o unedau gorfodol: 201-205, ac un uned ddewisol o naill ai Grŵp A neu Grŵp B (207)

Gall dysgwyr sy'n dymuno datblygu sgiliau pellach wneud uned 208 fel uned ddewisol. **Ni fydd** hon yn cyfrannu tuag at gyflawni'r cymhwyster.

Rhif uned City & Guilds	Enw'r uned	ODDA
Gorfodol		
7002-201	Ymgynghoriad	60
7002-202	Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen	40
7002-203	Torri gwallt gan ddefnyddio amrediad o dechnegau i greu amrywiaeth o edrychiadau	180
7002-204	Steilio a gorffen gwallt gan ddefnyddio amrediad o dechnegau i gyflawni amrywiaeth o edrychiadau	140
7002-205	Lliwio a goleuo gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau	180

Rhif uned City & Guilds	Enw'r uned	ODDA
-------------------------	------------	------

Grŵp Dewisol A

7002-206	Pyrmio gwallt	93
----------	---------------	----

Grŵp Dewisol B

7002-207	Triniaethau a thechnegau ymlacio gwallt	82
----------	---	----

Grŵp Dethol

7002-208	Gwasanaethau estyniadau gwallt	90
----------	--------------------------------	----

Cyfanswm Amser y Cymhwyster

Cyfanswm Amser y Cymhwyster (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i Ddysgwr ei dreulio i ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sydd wedi'u rhestru ar wahân) ac oriau a dreulir yn paratoi, astudio ac asesu.

Teitl a lefel	ODDA	CAC
City & Guilds Diploma Lefel 2 i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt	682	853

2 Gofynion y ganolfan

Cymeradwyo

Os yw eich Canolfan wedi'i chymeradwyo i gynnig y cymhwyster 6008-02 neu 7002-02 NVQ Diploma Lefel 2 mewn Trin Gwallt neu 6008-03 NVQ Diploma mewn Trin Gwallt, yna gallwch wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer 7002-06, y Diploma Lefel 2 newydd i Weithwyr Gwallt Proffesiynol - Trin Gwallt gan ddefnyddio'r ffurflen gymeradwyo llwybr carlam, sydd ar gael ar wefan City & Guilds.

Dylai canolfannau ddefnyddio'r ffurflen llwybr carlam os:

- na fu unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff y cymwysterau eu cyflwyno, ac
- os ydynt yn bodloni'r holl feini prawf cymeradwyo a nodir yn nodiadau canllaw'r ffurflen llwybr carlam.

Mae cymeradwyo llwybr carlam ar gael am 12 mis o ddyddiad lansio'r cymhwyster. Ar ôl 12 mis bydd rhaid i'r Ganolfan fynd drwy'r Broses Gymeradwyo Cymhwyster safonol. Y ganolfan sy'n gyfrifol am wirio bod cymeradwyo llwybr carlam yn dal yn gyfredol adeg gwneud cais.

I gynnig y cymwysterau hyn, bydd angen i ganolfannau newydd gael cymeradwyaeth y ganolfan a chymeradwyaeth y cymhwyster. Cyfeiriwch at Lawlyfr Canolfannau – Cefnogi Rhagoriaeth Cwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

Dylai staff y ganolfan ymgyswrtu gyda gofynion strwythur, cynnwys ac asesu'r cymwysterau cyn cynllunio rhaglen cwrs.

Gofynion o ran adnoddau

Staff y Ganolfan

Rhaid i staff sy'n darparu'r cymwysterau hyn allu dangos eu bod yn bodloni'r gofynion arbenigedd galwedigaethol canlynol. Dylen nhw:

- bod yn gymwys yn alwedigaethol neu'n dechnegol wybodus yn y maes/meysydd y maen nhw'n darparu hyfforddiant ar eu cyfer a/neu fod â phrofiad o ddarparu hyfforddiant. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn yr un lefel â'r hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu
- meddu ar brofiad perthnasol diweddar yn y maes penodol y byddan nhw'n ei asesu
- bod â phrofiad credadwy o ddarparu hyfforddiant.

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni ddylent sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Rhaid i'r asesydd a'r SAMau:

- meddu ar, neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster aseswyr dilys yn seiliedig ar LSIS, LLCC gynt, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Dysgu a Datblygu (2010)
 - Meddu ar NVQ mewn Trin Gwallt ar Lefel 3 neu gywerth
- Mae'n rhaid i'r Asesydd fod â digon o brofiad gweithredol yn y diwydiant trin gwallt a gwaith barbwr y gellir cael tystiolaeth amdano, sy'n gyfredol ac yn berthnasol i'r cymhwyster. Gellid ennill profiad drwy amser mewn rôl yn y diwydiant trin gwallt a allai gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Steilydd, Technegydd/arbenigwr; Rheolwr y salon; Hyfforddwr; Darlithydd; Gwiriwr

- Mae angen dilyn o leiaf 50 awr o DPP y flwyddyn gyda 30 o'r oriau hynny'n sgiliau ymarferol cymwysedig mewn amgylchedd masnachol (1af Medi – 31ain Awst) y mae'n rhaid eu harddangos drwy gynllun datblygu personol (CDP) neu fel dyddiadur adfyfyriol. Cyfrifoldeb yr unigolyn yw DPP, nid cyfrifoldeb y ganolfan lle maen nhw'n gweithio. Gallai'r 20 awr arall ddod o amrediad o weithgareddau megis:
 - Cyfarfodydd safoni
 - Diweddarau gwybodaeth neu sgiliau drwy'r rhyngwrwyd, teledu a chyfryngau eraill
 - Diweddarau masnachol drwy gyfrwng ymweliadau, lleoliadau, secondiadau neu gysgodi
 - Mynychu sesiynau briffio gan gyrff dyfarnu a chydweithwyr

Gall staff y ganolfan ymgymryd â mwy nag un rôl, e.e. tiwtor ac asesydd neu sicrhawr ansawdd mewnol, ond ni ddylent sicrhau ansawdd eu hasesiadau eu hunain yn fewnol.

Cyfeiriwch at y ddogfen Canllaw i Aseswyr i gael manylion am rôl y goruchwylwyr a'r rheolwyr fel tystion.

Gofynion mynediad i ddysgwyr

Nid yw City & Guilds yn gosod gofynion mynediad ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau fod gan ymgeiswyr y potensial a'r cyfle i ennill y cymwysterau'n llwyddiannus.

Cyfyngiadau oed

Nid yw City & Guilds yn gallu derbyn unrhyw gofrestrïadau ar gyfer dysgwyr dan 16 oed gan nad yw'r cymwysterau hyn wedi eu cymeradwyo ar gyfer dysgwyr dan 16.

Sicrhau ansawdd

Rhaid i ganolfannau cymeradwy fod â systemau sicrhau ansawdd effeithiol i sicrhau'r ddarpariaeth orau ac asesiad o'r cymwysterau.

Mae sicrhau ansawdd yn cynnwys cymeradwyo cychwynnol canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a gweithdrefnau mewnol y ganolfan ei hun ar gyfer monitro ansawdd. Canolfannau sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd mewnol a City & Guilds sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd allanol y cymhwyster.

Mae manylion llawn ac arweiniad ar ofynion a gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol i'w cael yn *Llawlyfr Canolfannau City & Guilds* ac *Ein gofynion sicrhau ansawdd*. Mae'r ddogfen hon hefyd yn esbonio tasgau, gweithgareddau a chyfrifoldebau staff sicrhau ansawdd.

Sicrhau ansawdd allanol

Caiff sicrhawyr ansawdd allanol (SAA) eu penodi gan City & Guilds i gymeradwyo canolfannau, ac i fonitro asesu a sicrhau ansawdd mewnol sy'n cael ei wneud gan ganolfannau. Mae sicrhau ansawdd allanol yn cael ei wneud i sicrhau bod dilysrwydd, dibynadwyedd ac arfer da yn y canolfannau.

Rôl y SAA yw:

- darparu cyngor a chefnogaeth i staff canolfannau
- sicrhau ansawdd a chysondeb asesiadau o fewn a rhwng canolfannau drwy ddefnyddio dulliau samplu systematig

- cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd i sicrhau eu bod yn parhau i gwrdd â meini prawf cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster
- Darparu adborth i ganolfannau ac i City & Guilds

Bydd sicrhau ansawdd allanol ar gyfer y cymwysterau yn cael ei ddarparu drwy broses arferol sicrhau ansawdd City & Guilds.

3 Cyflwyno'r cymhwyster

Asesu a chyflwyno cychwynnol

Dylid gwneud asesiad cychwynnol o bob ymgeisydd cyn dechrau'r rhaglen er mwyn nodi:

- a oes gan yr ymgeisydd unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- cefnogaeth ac arweiniad y gallai fod eu hangen arnynt wrth weithio tuag at eu cymwysterau
- unrhyw unedau y maen nhw wedi eu cwblhau'n barod, neu gredydau y maen nhw wedi eu cronni sy'n berthnasol i'r cymwysterau
- math a lefel priodol y cymhwyster.

Argymhellwn fod canolfannau'n darparu rhaglen sefydlu er mwyn i'r ymgeisydd ddeall yn llawn ofynion y cymwysterau, eu cyfrifoldebau fel ymgeiswyr, a chyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

Deunyddiau cefnogi

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymwysterau hyn:

Disgrifiad	Sut i gael gafael arnyn nhw
Ffurflenni cymeradwyo llwybr carlam	www.cityandguilds.com
Llyfr log ymgeisydd	www.cityandguilds.com
Canllaw Asesydd	www.cityandguilds.com
Papurau cwestiynau a chynllun marcio	www.cityandguilds.com

Dogfennau cofnodi

Gall ymgeiswyr a chanolfannau benderfynu defnyddio dull ar bapur neu ddull electronig o gofnodi tystiolaeth. Mae modd archebu llyfrau log premiwm drwy'r Walled Garden (www.walledgarden.com).

Mae City & Guilds yn cefnogi nifer o systemau eBortffolio, yn cynnwys ein hun ni, **Cynorthwy-ydd Dysgu**, teclyn ar-lein diogel a hawdd ei ddefnyddio i gefnogi a darparu tystiolaeth o gynnydd dysgwyr tuag at ennill cymwysterau. Mae manylion pellach ar gael ar: www.cityandguilds.com/eportfolios.

4 Asesu

Crynodeb o ddulliau asesu

Er mwyn ennill y cymhwyster rhaid i ymgeiswyr:

- fod â phortffolio wedi'i gwblhau o dystiolaeth ar gyfer pob uned
- fod wedi cyflawni/cwblhau'r gofynion gwybodaeth a dealltwriaeth hanfodol

Caiff y cymhwyster ei asesu gan aseswyr y ganolfan ac mae'n gymhwyster llwyddo/methu yn unig.

Asesiad

Uned	Teitl	Dull Asesu	Lle i gael gafael ar ddeunyddiau asesu
	Gwybodaeth draws-uned	Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 690 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
201	Ymgynghoriad	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 601 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
202	Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 602 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar

Uned	Teitl	Dull Asesu	Lle i gael gfael ar ddeunyddiau asesu
			wefan City & Guilds
203	Torri gwallt gan ddefnyddio amrediad o dechnegau i greu amrywiaeth o edrychiadau	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 603 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
204	Steilio a gorffen gwallt gan ddefnyddio amrediad o dechnegau i gyflawni amrywiaeth o edrychiadau	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 604 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
205	Lliwio a goleuo gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 605 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
206	Pymio gwallt	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 606 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds

Uned	Teitl	Dull Asesu	Lle i gael gfael ar ddeunyddiau asesu
207	Triniaethau a thechnegau ymlacio gwallt	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 607 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds
208	Gwasanaethau estyniadau gwallt	Portffolio a Prawf ar-lein NEU brawf cwestiynau atebion byr	Prawf ar-lein rhif 608 Mae papurau atebion byr a chanllawiau marcio ar gael ar wefan City & Guilds

Strategaeth Asesu

Mae'r strategaeth asesu ar gyfer y cymhwyster hwn wedi cael ei chynhyrchu mewn partneriaeth gyda'r diwydiant, sefydliadau dyfarnu a Habia.

Mae'n amlinellu'r egwyddorion a'r gofynion sydd i'w defnyddio wrth asesu perfformiad a chymhwysedd, a gwybodaeth a dealltwriaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth o'r strategaeth yn y dogfennau Llawlyfr y Cymhwyster a'r Canllaw i Aseswyr, ac ar ben hyn mae modd lawrlwytho copi llawn o'r strategaeth o wefan Habia.

Mae'r strategaeth yn manylu ar y gofynion tystiolaeth ar gyfer pob uned. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adran tystiolaeth gefnogol pob uned yn y llawlyfr.

Mae'r strategaeth yn nodi bod rhaid i ymgeiswyr **sefyll cwestiynau wedi'u gosod yn allanol** ar gyfer yr unedau canlynol:

Rhif uned City & Guilds	Lefel	Enw'r uned
690	2	Prawf Gwybodaeth draws-uned
201	2	Ymgynghoriad

Rhif uned City & Guilds	Lefel	Enw'r uned
202	2	Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen
205	2	Lliwio a goleuo gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau
206	2	Pymio gwallt
207	3	Triniaethau a thechnegau ymlacio gwallt

Mae City & Guilds hefyd wedi cynhyrchu asesiadau ar gyfer yr holl unedau sydd ar ôl.

Am ragor o wybodaeth ar sut mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu, cyfeiriwch at y ddogfen Canllaw i Aseswyr.

5 Unedau

Argaeledd unedau

Mae'r holl unedau i'w cael yn y ddogfen hon.

Strwythur yr unedau

Mae gan bob un o'r unedau hyn y canlynol:

- Cyfeirnod City & Guilds
- Enw
- Lefel
- Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA)
- Canlyniadau dysgu sy'n cynnwys nifer o feini prawf asesu

Rhaid i ganolfannau gyflwyno ehangder llawn yr amrediad. Efallai na fydd cyfarpar neu nwyddau arbenigol ar gael ym mhob canolfan, felly dylai canolfannau sicrhau bod eu cyflwyniad yn cynnwys defnyddio'r pethau hyn. Gellir gwneud hyn drwy arddangosiad ymarferol (e.e. fideo). Ar gyfer asesiadau ymarferol y cymhwyster hwn, dylai canolfannau sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i gwblhau'r dasg ond nid oes gofyn iddyn nhw ddefnyddio'r holl gyfarpar neu nwyddau yn yr amrediad.

Unedau

Mae'r cymwysterau yn cynnwys nifer o unedau. Mae uned yn disgrifio beth sy'n ddisgwyliedig gan berson cymwys mewn agweddau penodol o'i swydd.

Mae pob uned wedi'i rhannu'n **ganlyniadau dysgu** sy'n disgrifio'n fanylach y sgiliau a'r wybodaeth y dylai ymgeisydd eu meddu.

Mae gan bob **canlyniad dysgu** gyfres o **feini prawf asesu** (perfformiad, gwybodaeth a dealltwriaeth) sy'n nodi'r meini prawf dymunol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir dweud bod unigolyn wedi perfformio i'r safon y cytunwyd arni. Mae'r gofynion ymarferol a gwybodaeth o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol wedi eu mapio i'r holl feini prawf asesu.

Mae datganiadau **ystod** yn diffinio ehangder neu gwmpas canlyniad dysgu a'i feini prawf asesu drwy nodi'r gwahanol amgylchiadau lle maent i'w cymhwyso. Mae dau fath o ystod: ymarferol a gwybodaeth. Mae amrediad ymarferol yn benodol i ganlyniad dysgu sy'n asesu cymhwysedd/sgiliau ymarferol. Mae amrediad gwybodaeth yn benodol i ganlyniadau dysgu sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae pob uned wedi'u thanategu gyda gwerthoedd ac ymddygiadau disgwyliedig. Ceir manylion am y rhain yn Atodiad 1.

Uned 201

Ymgynghoriad

Lefel uned:	2
ODDA:	60
Nod yr uned:	<p>Bydd y prentis yn gallu:</p> <p>Asesu gofynion y cleient yn greadigol; archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen; nodweddion wyneb yn cynnwys siâp wyneb, tôn croen, lliw gwallt, ffordd o fyw ac addasrwydd; cynnal gwiriadau gweledol ac unrhyw brofion angenrheidiol ar y gwallt, y croen a chroen y pen; rhoi cyngor i gleientiaid ar wasanaethau neu gynhyrchion; adnabod nodweddion gwallt y cleient a dosbarthiad y gwallt; a rhoi cyngor i gleientiaid ar gynnal a chadw a rheoli gwallt.</p> <p>Bydd y prentis yn gwybod ac yn deall:</p> <p>Cymhorthion gweledol ar gyfer ymgynghoriadau cleientiaid; gweithdrefnau'r salon a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr ar gyfer cynnal profion; mathau a phwrpasau profion; sut mae ffactorau ffordd o fyw yn cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau; anghydnawsedd gwasanaethau blaenorol a'r cynhyrchion gafodd eu defnyddio; problemau gwallt, croen a chroen y pen; heintiau neu blâu posibl; nodweddion a dosbarthiad gwallt; strwythur sylfaenol y gwallt a'r croen; cylch tyfu'r gwallt; gwasanaethau neu gynhyrchion sydd ar gael i'w defnyddio yn y salon neu i'w hadwerthu; cyfrifoldebau cyfreithiol; a strwythurau prisio'r salon.</p>
Dull Asesu:	Portffolio a phrawf ar-lein wedi'i osod yn allanol NEU brawf cwestiynau atebion byr ar bapur.

Canlyniad dysgu

1. Adnabod gofynion y cleient

Sgiliau ymarferol

Rhaid i chi allu:

- 1.1 Cynnal gwasanaethau ymgynghori
 - a. ymgynghori gyda'ch cleient i ganfod eu gofynion
 - b. caniatáu digon o amser i'ch cleient i fynegi eu dymuniadau
 - c. gofyn cwestiynau perthnasol mewn ffordd y bydd eich cleient yn ei deall
 - ch. defnyddio cymhorthion gweledol i ddangos syniadau amgen i gleientiaid i'w helpu i wneud penderfyniad
 - d. annog eich cleient i holi am unrhyw bethau y maen nhw'n ansicr yn eu cylch
 - dd. adnabod a chadarnhau dymuniadau eich cleient am wasanaethau a chynhyrchion

Ystod

(1.1) Cleient:

- newydd
- rheolaidd

(1.1 f) Adnabod:

- cwestiwn
 - arsylwi
-

Canlyniad dysgu

2. Archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen

Sgiliau ymarferol

Rhaid i chi allu:

- 2.1 Defnyddio dulliau gweithio diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau
 - a. sicrhau bod eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
 - 2.2 Cynnal profion perthnasol
 - a. gwneud gwiriadau gweledol a chynnal unrhyw brofion angenrheidiol ar y gwallt, y croen a chroen y pen i gwrdd â gweithdrefnau penodol
 - b. adnabod, o gofnodion blaenorol eich cleient, pan fyddan nhw ar gael, unrhyw ffactorau sy'n debyg o effeithio ar wasanaethau yn y dyfodol
 - c. adnabod yn brydlon ac adrodd am unrhyw broblemau na ellir eu trafod gyda'r person perthnasol
-

Ystod

(2.2 b) Ffactorau sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau

- cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen
- anghydnawsedd gwasanaethau blaenorol a'r cynhyrchion gafodd eu defnyddio
- ffordd o fyw cleient
- canlyniadau profion
- dosbarthiad gwallt

(2.2 c) Problemau:

- heintiau posibl
- plâu posibl
- nodweddion gwallt:
- dwysedd gwallt
- gwead gwallt
- elastigedd y gwallt
- mandylledd gwallt
- cyflwr gwallt
- patrymau tyfiant gwallt

Canlyniad dysgu

3. Rhoi cyngor i'ch cleient a chytuno ar wasanaethau a chynhyrchion

Sgiliau ymarferol

Rhaid i chi allu:

- 3.1 Rhoi cyngor ac argymhellion i gleientiaid
- gwneud argymhellion ar ganlyniadau adnabod nodweddion gwallt eich cleient ac ar ddsbarthiad eu gwallt
 - esbonio sut y gall nodweddion eu gwallt effeithio ar y gwasanaethau trin gwallt mewn ffordd y gall eich cleient ei deall
 - cytuno ar wasanaethau, cynhyrchion a chanlyniadau sy'n dderbyniol i'ch cleient ac yn cwrdd â'u hanghenion
 - nodi pris tebygol a pharhad y cynhyrchion a'r gwasanaethau y cytunwyd arnyn nhw i'ch cleient
 - cynnal yr holl gyfathrebu gyda'ch cleient mewn modd sy'n cadw ewyllys da, ymddiriedaeth, cyfrinachedd a phreifatrwydd
 - dd. rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Ystod

(3.1 a) Dosbarthiad gwallt:

- Math 1 – Gwallt Syth
- Math 2 – Gwallt Tonnog
- Math 3 - Gwallt Cyrliog
- Math 4 – Cyrliog Gwallt lawn

(3.1 f) Cyngor ac argymhellion:

- sut i gynnal eu hedrychiad
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol

Canlyniad dysgu

4. Gwybod sut i adnabod gofynion y cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Byddwch yn gwybod ac yn deall:

- 4.1 Disgrifio sut i gyfathrebu'n effeithiol wrth gynnal gwasanaethau ymgynghori
- pam mae cyfathrebu effeithiol yn bwysig i fusnes eich salon
 - sut i ddefnyddio technegau ymgynghori effeithiol wrth gyfathrebu gyda chleientiaid o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, oedran, anabledau a rhywedd
 - y sgiliau holi a gwrando sydd eu hangen arnoch i ganfod gwybodaeth
 - pam mae hi'n bwysig annog a chaniatáu amser i gleientiaid holi cwestiynau
 - y gwahanol fathau o gymhorthion gweledol all helpu gydag ymgynghori â chleientiaid

- 4.2 Esbonio pwysigrwydd dilyn deddfwriaeth berthnasol gyfredol
 - a. rheolau'r salon ar gadw cyfrinachedd a phreifatrwydd
 - b. pwysigrwydd peidio â gwahaniaethu yn erbyn cleientiaid gydag anableddau a salwch a pham
-

Canlyniad dysgu

5. Gwybod sut i archwilio'r gwallt, y croen a chroen y pen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Byddwch yn gwybod ac yn deall:

- 5.1 Amlinellu cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn eu rôl eu hunain
 - a. eich cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol, berthnasol, safonau ac arweiniad fel y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a deddfwriaeth berthnasol arall
 - b. eich cyfrifoldebau a'r rhesymau dros gynnal eich hylendid, amddiffyniad a'ch ymddangosiad eich hun
 - c. gweithdrefnau'r salon a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr mewn perthynas â chynnal profion
 - 5.2 Disgrifio pryd a sut y mae profion yn cael eu cynnal
 - a. sut a phryd y mae profion yn cael eu cynnal ar wallt
 - 5.3 Esbonio sut mae canlyniadau profion yn dylanwadu ar wasanaethau
 - a. pwysigrwydd cynnal profion a'r canlyniadau potensial o fethu â gwneud hynny
 - 5.4 Esbonio pam mae hi'n bwysig adnabod ffactorau allai gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau
 - a. pam mae hi'n bwysig adnabod ffactorau allai gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau a chynhyrchion y gellir eu defnyddio
 - 5.5 Esbonio sut y gall ffactorau gyfyngu neu effeithio ar wasanaethau a'r dewis o gynhyrchion
 - a. sut mae ffordd o fyw, cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen, anghydnawsedd gwasanaethau a chynhyrchion blaenorol yn cyfyngu neu'n effeithio ar y gwasanaethau a'r cynhyrchion y gellir eu cynnig i'r cleientiaid
 - 5.6 Disgrifio sut i adnabod problemau gwallt, croen a chroen y pen a'r camau angenrheidiol i'w cymryd
 - a. sut i adnabod problemau gwallt, croen a chroen y pen
 - b. sut i adnabod heintiau a phlâu posibl sydd angen eu riportio a nodi i bwy y dylid eu riportio
-

Ystod

(5.4, 5.5) Ffactorau sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau

- cyflyrau gwallt, croen a chroen y pen croes
- anghydnawsedd gwasanaethau blaenorol a'r cynhyrchion gafodd eu defnyddio
- ffordd o fyw cleient
- canlyniadau profion
- dosbarthiad gwallt

(5.6 a) Problemau:

- heintiau posibl
 - plâu posibl
 - nodweddion gwallt:
 - dwysedd gwallt
 - gwead gwallt
 - elastigedd y gwallt
 - mandylledd gwallt
 - cyflwr gwallt
 - patrymau tyfiant gwallt
-

Canlyniad dysgu

6. Gwybod sut i roi cyngor i'ch cleient a chytuno ar wasanaethau a chynhyrchion

Gwybodaeth a dealltwriaeth**Byddwch yn gwybod ac yn deall:**

- 6.1 Adnabod gwahanol nodweddion a dosbarthiadau gwallt
 - a. y gwahanol fathau o nodweddion gwallt
 - b. y gwahanol fathau o ddsbarthiadau gwallt
- 6.2 Disgrifio strwythur sylfaenol y gwallt a'r croen
 - a. strwythur sylfaenol y gwallt a'r croen
- 6.3 Disgrifio cylch tyfu'r gwallt
 - a. cylch tyfu'r gwallt
- 6.4 Esbonio'r gwasanaethau a'r cynhyrchion sydd ar gael i'w defnyddio yn eich salon
 - a. y gwasanaethau a'r cynhyrchion sydd ar gael i'w defnyddio yn eich salon
- 6.5 Esbonio eich cyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddisgrifio nodweddion a buddion cynhyrchion a gwasanaethau
 - a. eich cyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddisgrifio nodweddion a buddion cynhyrchion a gwasanaethau
- 6.6 Disgrifio strwythur prisio eich salon
 - a. strwythur prisio eich salon
- 6.7 Disgrifio sut i gyfrifo'r pris tebygol am wasanaethau
 - a. sut i gyfrifo'r pris tebygol am wasanaethau

- 6.8 Esbonio pwysigrwydd Rhoi cyngor ac argymhellion i'r cleient
- a. pwysigrwydd rhoi disgwyliadau realistig i'r cleient
 - b. pwysigrwydd Rhoi cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon
- 6.9 Esbonio sut i gwblhau'r cofnodion cleientiaid sy'n cael eu defnyddio yn eich sefydliad a phwysigrwydd a'r rhesymau dros gael cydsyniad y cleient
- a. sut i gwblhau'r cofnodion cleientiaid sy'n cael eu defnyddio yn eich sefydliad a phwysigrwydd a'r rhesymau dros gael cydsyniad y cleient
-

Ystod

(6.1 b) Dosbarthiad gwallt:

- Math 1 – Gwallt Syth
- Math 2 – Gwallt Tonnog
- Math 3 - Gwallt Cyrliog
- Math 4 – Cyrliog Gwallt lawn

(6.8) Cyngor ac argymhellion:

- sut i gynnal eu hedrychiad
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol
- deddfwriaeth gwarchod cwsmeriaid

Uned 201

Ymgynghoriad

Gwybodaeth Gefnogol

Gofynion Tystiolaeth (Trin Gwallt)

1. Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth o berfformio yn yr Uned hon.
2. Bydd angen i chi arddangos yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer datblygu sgiliau ymgynghori â chleientiaid.
3. Bydd eich Asesydd yn arsylwi'r agweddau hyn o'ch perfformiad fel rhan o'r arsylwadau technegol a byddant yn cael eu cofnodi **ar o leiaf 3 achlysur** o fewn unrhyw rai o'r unedau canlynol:
 - Uned 203 Torri gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau
 - Uned 205 Lliwio a goleuo gwallt gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau

ac un o blith:

- Uned 206 Pymio gwallt
 - Uned 207 Triniaethau a thechnegau ymlacio gwallt
 - Uned 208 Gwasanaethau estyniadau gwallt
4. O'r amrediad, rhaid i chi ddangos eich bod wedi:
 - ymgynghori gyda chleientiaid **newydd a rheolaidd**
 - defnyddio **pob** dull o adnabod dymuniadau cleientiaid
 - addasu eich cyngor i gymryd i ystyriaeth y ffactorau sy'n cyfyngu neu'n effeithio ar wasanaethau
 - adnabod neu'n gallu disgrifio problemau
 - cymryd i ystyriaeth **pob un** o nodweddion gwallt
 - defnyddio **3 o'r 4** dosbarthiad
 - rhoi'r **holl** gyngor ac argymhellion.
 5. Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch asesydd eich bod yn meddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr amrediad hwn.

Gall sgiliau neu wybodaeth o'r amrediad sy'n weddill gael eu dangos drwy unrhyw ffurf o bortffolio tystiolaeth:

- Prosiectau/astudiaethau achos
- Gwaith wedi'i arsylwi
- Datganiadau tystion
- Cyfryngau clyweledol
- Tystiolaeth o ddysgu neu gyflawniad blaenorol
- Aseiniadau ysgrifenedig
- Cwestiynau llafar
- Aseiniadau

- Astudiaethau achos
- Trafodaeth broffesiynol
- Dyddiadur adfyryiol ar eu hymarfer eu hunain mewn amgylchedd gwaith priodol
- Gwaith cwrs

Uned 202

Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Lefel uned:	2
ODDA:	40
Nod yr uned:	<p>Bydd y prentis yn gallu:</p> <p>Defnyddio cynhyrchion a chyfarpar; defnyddio technegau tylino; defnyddio cynhyrchion siampŵo a chyflyru.</p> <p>Bydd y prentis yn gwybod ac yn deall:</p> <p>Sut mae cynhyrchion siampŵo a chyflyru'n effeithio ar y gwallt a chroen y pen: pryd a sut i ddefnyddio gwahanol dechnegau tylino; a gwahanol effeithiau triniaethau cyflyru</p>
Dull Asesu:	Portffolio a phrawf ar-lein wedi'i osod yn allanol NEU brawf cwestiynau atebion byr ar bapur.

Canlyniad dysgu

1. Defnyddio dulliau gwaith diogel wrth siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Sgiliau ymarferol

Byddwch yn gallu:

- 1.1 Paratoi ar gyfer gwasanaethau siampŵo, cyflyru a thrin
 - a. paratoi eich cleient i gwrdd â gofynion y salon
 - b. sicrhau bod eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
- 1.2 Defnyddio dulliau gweithio diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau
 - a. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth
 - b. gwisgo cyfarpar diogelu personol, os oes angen
 - c. lleoli eich cleient i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth heb achosi anghysur iddyn nhw
 - ch. sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
 - d. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth

- dd. defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau'r risg o ddifrod i offer
 - e. defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad
 - f. defnyddio dulliau gwaith sy'n sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
 - ff. defnyddio dulliau gwaith sy'n lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac i eraill
 - g. sicrhau bod eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
 - ng. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel
 - h. gwaredu deunyddiau gwastraff
- 1.3 Cynnal gwasanaethau siampŵo, cyflyru a thriniaeth
- a. amddiffyn dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
 - b. defnyddio dulliau gwaith sy'n gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio
 - c. defnyddio dulliau gwaith sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
 - ch. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol hyfyw
-

Canlyniad dysgu

2. Gwybod sut mae polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau siampŵo, cyflyru a thrin croen y pen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

- 2.1 Amlinellu eich cyfrifoldebau eich hun dros iechyd a diogelwch
- a. eich cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â rôl eich swydd
 - b. yr amrediad o ddillad amddiffynnol ddylai fod ar gael i chi ac i'ch cleient
 - c. pwysigrwydd hylendid personol ac ymddangosiad wrth gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle
- 2.2 Disgrifio'r peryglon potensial a'r risgiau posibl all ddigwydd yn y gweithle ac effeithio ar wasanaethau
- a. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn
- 2.3 Disgrifio dulliau ac arferion gwaith diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol y gwasanaethau
- a. gofynion eich cleient ar gyfer paratoi'r cleient
 - b. sut y gall lleoliad eich cleient a'ch lleoliad eich hun effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
 - c. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
 - ch. y dulliau cywir o waredu gwastraff
- 2.4 Disgrifio dermatitis cyswllt a sut y gellir ei atal
- a. beth yw dermatitis cyswllt a sut i osgoi ei ddatblygu tra'n cynnal gwasanaethau trin gwallt
- 2.5 Esbonio pwysigrwydd cwestiynu cleientiaid cyn ac yn ystod gwasanaethau

- a. pwysigrwydd holi cleientiaid i sefydlu unrhyw wrth-arwyddion i wasanaethau trin gwallt a chroen y pen

2.6 Nodi pwysigrwydd atal traws-heintiad a phlâu

- a. pam mae hi'n bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus
- b. pam mae hi'n bwysig osgoi traws-heintiad a phlâu
- c. dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad a phlâu
- ch. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio sy'n cael eu defnyddio mewn salonau

Ystod

(2.1 a) Iechyd a diogelwch:

Eich cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, safonau a chanllawiau perthnasol fel y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a deddfwriaeth berthnasol arall

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân)
- Rheoliadau Gweithrediadau Trafod â Llaw
- Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)
- Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogedigion)

Canlyniad dysgu

3. Siampwô, cyflyru a thrin y gwallt a croen y pen

Sgiliau ymarferol

Bydd y dysgwr yn gallu:

- 3.1 Ymgynghori gyda chleientiaid ynghylch gwasanaethau a chanlyniadau profion
 - a. holi cwestiynau i'ch cleient i adnabod a oes ganddyn nhw wrth-arwyddion i wasanaethau triniaeth gwallt a croen y pen
- 3.2 Dewis cynhyrchion, offer a chyfarpar addas
 - a. defnyddio cynhyrchion, offer a chyfarpar addas ar gyfer cyflwr gwallt eich cleient a chyflwr croen y pen
- 3.3 Cynnal gwasanaethau siampwô, cyflyru a thriniaeth
 - a. addasu eich technegau tylino siampwô i gwrdd ag anghenion hyd a thrwch gwallt eich cleient a chyflwr y gwallt a chyflwr croen y pen
 - b. addasu eich technegau tylino siampwô i sicrhau cysur eich cleient
 - c. addasu tymheredd y ddŵr a'r llif i siwtio anghenion gwallt, croen y pen a chysur eich cleient
 - ch. cribo drwy wallt eich cleient, os oes angen, cyn y rhan nesaf o'r gwasanaeth, heb achosi niwed i'r gwallt a croen y pen
 - d. rhoi cynhyrchion cyflyru i gwrdd ag anghenion gwallt a croen pen eich cleient, gan ddilyn cyfarwyddiadau eich salon a'r gwneuthurwr
 - dd. addasu eich technegau tylino cyflyru i gwrdd ag anghenion cyflwr gwallt a chyflwr croen pen eich cleient a dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
 - e. monitro ac amseru datblygiad y cynnyrch cyflyru a rhoi gwres ar y tymheredd cywir os oes angen
 - f. tynnu'r cynnyrch cyflyru, os oes angen, mewn ffordd sy'n osgoi amharu ar gyfeiriad y cwtigl
 - ff. gadael gwallt a croen pen eich cleient yn lân ac yn rhydd o gynhyrchion cyflyru, os oes angen, ac yn rhydd o ddŵr gormodol
 - g. cribo drwy wallt eich cleient heb achosi niwed i'r gwallt a croen y pen

- 3.4 Rhoi cyngor ac argymhellion i gleientiaid ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu
- a. rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu
-

Ystod

(3.3 a, 3.3 a, 3.3 f) Cyflwr gwallt:

- wedi'i niweidio
- cynnyrch yn crynhoi
- normal
- olewog
- sych

(3.3 a, 3.3 a, 3.3 f) Cyflwr croen y pen:

- wedi'i effeithio gan gen pen
- olewog
- sych
- cynnyrch yn crynhoi
- normal

(3.3 a, 3.3 b) Technegau tylino siampŵo

- effleurage
- cylchol
- ffrithiant

(3.2) Cynhyrchion tylino:

- arwyneb
- treiddiol
- triniaeth croen y pen

(3.3 f) Technegau tylino cyflyru:

- effleurage
- petrissage

(3.4) Cyngor ac argymhellion:

- technegau datod clymau'n gywir
 - cynhyrchion siampŵ a chyflyru addas
 - cyfnod amser rhwng gwasanaethau
 - cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol
-

Canlyniad dysgu

4. Gwybod sut i siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Byddwch yn gwybod ac yn deall:

- 4.1 Esbonio cyflyrau gwallt a chroen y pen a'u hachosion
- a. sut i adnabod cyflyrau gwallt a chroen y pen a'u hachosion
 - b. sut a pham y gall gwrth-arwyddion effeithio ar y gwasanaeth
 - c. sut y gall cyflyrau gwallt a chroen y pen gwahanol effeithio ar y dewis o gynhyrchion siampŵo, cyflyru a thriniaeth
- 4.2 Esbonio'r gwyddoniaeth sy'n tanategu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu
- a. sut mae siampŵ a dŵr yn gweithio gyda'i gilydd i lanhau'r gwallt
 - b. effeithiau tymheredd dŵr ar groen y pen ac ar strwythur y gwallt

- c. sut mae gwerth pH y cynhyrchion yn gallu effeithio ar y gwallt, croen y pen a chyflwr presennol y gwallt
 - ch. sut y gall cynhyrchion yn 'cronni' effeithio ar y gwallt, croen y pen ac effeithiolrwydd gwasanaethau eraill
 - d. sut i ddefnyddio a thrafod cyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod prosesau cyflyru a thriniaeth
- 4.3 Esbonio'r technegau tyfino sy'n cael eu defnyddio yn ystod siampwô a chyflyru
- a. pryd a sut y dylai technegau tyfino gael eu defnyddio wrth gyflyru gwallt o wahanol hyd a thrwch
 - b. pryd a sut y dylai technegau tyfino cylchdro, effleurage a ffrithiant gael eu defnyddio wrth siampwô gwallt o wahanol hyd a thrwch
 - c. pwrpas a manteision tyfino croen y pen
- 4.4 Esbonio pwysigrwydd cribo clymau allan o'r gwallt o'r gwaelod i'r gwraidd
- a. pwysigrwydd cribo clymau allan o'r gwallt o'r gwaelod i'r gwraidd
- 4.5 Disgrifio amrediad y cynhyrchion sydd ar gael
- a. sut mae cynhyrchion siampwô a chyflyru'n effeithio ar y gwallt a chroen y pen
 - b. mathau o gynhyrchion a chyfarpar siampwô a chyflyru sydd ar gael
 - c. pryd a sut i ddefnyddio gwahanol gynhyrchion siampwô, cyflyru a thriniaeth
- 4.6 Amlinellu pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn gost effeithiol
- a. pryd y dylai'r broses siampwô gael ei ailadrodd
- 4.7 Disgrifio effeithiau potensial defnyddio cynhyrchion anghywir
- a. beth allai ddigwydd pe byddai'r cynhyrchion siampwô a chyflyru anghywir yn cael eu defnyddio
- 4.8 Nodi pwysigrwydd symud cynhyrchion cyflyru a thriniaeth, pan fo angen
- a. pwysigrwydd symud cynhyrchion cyflyru a thriniaeth, pan fo angen
- 4.9 Amlinellu pwysigrwydd tynnu dŵr gormodol o'r gwallt ar ddiwedd y gwasanaeth
- a. pwysigrwydd tynnu dŵr gormodol o'r gwallt ar ddiwedd y gwasanaeth
- 4.10 Esbonio sut mae gwres yn effeithio ar y gwallt yn ystod y driniaeth gyflyru
- a. sut mae gwres yn effeithio ar y gwallt yn ystod y driniaeth gyflyru
- 4.11 Esbonio pwysigrwydd Rhoi cyngor ac argymhellion i'r cleient ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu a'r cynhyrchion sydd ar gael
- a. pwysigrwydd Rhoi cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon
-

Ystod

(4.1) Cyflwr gwallt:

- wedi'i niweidio
- cynnyrch yn crynhoi
- normal
- olewog
- sych

(4.1) Cyflwr croen y pen:

- wedi'i effeithio gan gen pen
- olewog

- sych
- cynnyrch yn crynhoi
- normal

(4.5a, 4.5b, 4.7) Cynhyrchion tylino:

- arwyneb
- treiddiol
- triniaeth croen y pen

(4.11) Cyngor ac argymhellion:

- technegau datod clymau'n gywir
- cynhyrchion siampŵ a chyflyru addas
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol

Uned 202

Siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen

Gwybodaeth Gefnogol

Gofynion tystiolaeth

1. Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth o berfformio yn yr Uned hon.
2. Rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith o ddydd i ddydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer siampŵo, cyflyru a thrin y gwallt a chroen y pen.
3. Bydd eich Asesydd yn arsylwi'r agweddau hyn o'ch perfformiad ar **o leiaf 2 achlysur**.
4. O'r amrediad, rhaid i chi ddangos eich bod wedi:
 - addasu eich technegau siampŵo ar gyfer **3 o'r 5** cyflwr gwallt
 - addasu eich technegau siampŵo ar gyfer **3 o'r 5** cyflwr croen y pen,
 - defnyddio **2 allan o'r 3** techneg tylino siampŵo
 - defnyddio **pob un** o'r cynhyrchion cyflyru
 - defnyddio **pob un** o'r technegau tylino cyflyru
 - rhoi'r **holl** gyngor ac argymhellion
5. Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch asesydd eich bod yn meddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr amrediad hwn.

Gall sgiliau neu wybodaeth o'r amrediad sy'n weddill gael eu dangos drwy unrhyw ffurf o bortffolio tystiolaeth:

- Prosiectau/astudiaethau achos
- Gwaith wedi'i arsylwi
- Datganiadau tystion
- cyfryngau clyweledol
- Tystiolaeth o ddysgu neu gyflawniad blaenorol
- Aseiniadau ysgrifenedig
- Cwestiynau llafar
- Aseiniadau
- Astudiaethau achos
- Trafodaeth broffesiynol
- Dyddiadur adfyfyriol ar eu hymarfer eu hunain mewn amgylchedd gwaith priodol
- Gwaith cwrs

Uned 203

Torri gwallt gan ddefnyddio amrediad o dechnegau i greu amrywiaeth o edrychiadau

Lefel uned:	3
ODDA:	180
Nod yr uned:	<p>Bydd y prentis yn gallu:</p> <p>Defnyddio amrywiaeth o dechnegau torri yn cynnwys un hyd, torri ffrinj, technegau torri manwl, siswrn dros grib, gweadu, technegau haenu, graddio a gwaith cliper.</p> <p>Bydd y prentis yn gwybod ac yn deall:</p> <p>Sut a phryd i ddefnyddio gwahanol dechnegau torri a chyfarpar perthnasol a'r effeithiau sy'n cael eu cyflawni; dosbarthiad pwysau a gweithio gyda phatrymau tyfu naturiol y gwallt; onglau torri a dosbarthiad pwysau sy'n dod o ganlyniad; a chydbwysedd a graddau'r graddio.</p>
Dull Asesu:	Portffolio a phrawf ar-lein wedi'i osod yn allanol NEU brawf cwestiynau atebion byr ar bapur.

Canlyniad dysgu

1. Defnyddio arferion gweithio diogel wrth dorri gwallt

Sgiliau ymarferol

Byddwch yn gallu:

- 1.1 Paratoi ar gyfer gwasanaethau torri
 - a. paratoi eich cleient i gwrdd â gofynion y salon
- 1.2 Defnyddio dulliau gweithio diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau
 - b. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth
 - c. amddiffyn dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
 - ch. cadw croen eich cleient yn rhydd o doriadau gwallt gormodol drwy gydol y gwasanaeth
 - d. lleoli eich cleient i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth heb achosi anghysur iddyn nhw
 - dd. sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf

- e. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
 - f. defnyddio dulliau gwaith sy'n:
 - lleihau'r risg o ddifrod i offer
 - lleihau'r risg o draws-heintiad
 - gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gwaith
 - sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
 - mae'r rhain yn lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac i eraill
 - hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
 - ff. sicrhau bod eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
 - g. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel
 - ng. gwaredu deunyddiau gwastraff
- 1.3 Dewis cynhyrchion, offer a chyfarpar addas
- 1.4 Cynnal gwasanaethau torri
- a. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol hyfyw
- 1.5 Rhoi cyngor ac argymhellion i gleientiaid ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu
- a. rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Ystod

(1.3) Offer a chyfarpar:

- siswrn
 - b. yr amgylchiadau pan allai fod angen torri'r gwallt cyn gwasanaeth
 - c. sut mae gwahanol ffactorau'n effeithio ar eich dewis o ymlaciwr
 - ch. y ffactorau a ddylid eu hystyried wrth ddewis cynhyrchion ymlacio sodiwm neu ddi-sodiwm
- 5.3 Disgrifio sut i adnabod gwrth-arwyddion a sut y maen nhw'n effeithio ar wasanaethau ymlacio
 - a. sut y gall y gwrth-arwyddion effeithio ar y gwasanaeth ymlacio
 - b. sut i adnabod trichorrhesis nodosa a sut i ddelio gyda'r cyflwr hwn
- 5.4 Esbonio pam mae hi'n bwysig profi'r gwallt a chroen y pen cyn ac yn ystod gwasanaethau ymlacio
 - a. canlyniadau potensial methu â chynnal profion
 - b. pam mae hi'n bwysig cofnodi canlyniadau profion
- 5.5 Disgrifio sut a phryd y mae profion ymlacio'n cael eu cynnal
 - a. mathau a phwrpasau profion
 - b. pryd a sut y dylai profion gael eu cynnal a'r canlyniadau disgwylidig
- 5.6 Esbonio sut mae canlyniadau profion yn dylanwadu ar y gwasanaeth ymlacio
 - a. sut gall archwilio'r gwallt a chroen y pen effeithio ar y dewis o gynhyrchion
 - b. sut y gall canlyniadau profion ddylanwadu ar y gwasanaeth ymlacio
 - c. y camau gweithredu i'w cymryd os bydd adweithiau anffafriol i brofion
- 5.7 Esbonio'r effeithiau ar strwythur y gwallt wrth ymlacio gwallt
 - a. effeithiau ymlacwyr ar strwythur y gwallt
 - b. effaith ymlacwyr ar wallt gwyn

- 5.8 Nodi'r cynhwysion gweithredol mewn cynhyrchion ymlacio
 - a. cynhwysion gweithredol mewn cynhyrchion ymlacio
 - 5.9 Disgrifio'r amrediad o gynhyrchion, offer a chyfarpar sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth ymlacio
 - a. pam mae gwahanol offer yn cael eu defnyddio yn y gwasanaeth ymlacio a'u heffaith ar y gwallt a croen y pen
 - b. y gwahanol fathau a chryfderau'r ymlacwyr sydd ar gael a phryd i'w defnyddio nhw
 - c. y gwahanol fathau a defnydd o driniaethau cyn- ac ôl-ymlacio a phryd i'w defnyddio nhw
 - ch. sut i ddefnyddio gwarchodwyr croen y pen a pham maen nhw'n bwysig
 - 5.10 Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i gleientiaid
 - a. effeithiau potensial defnyddio cynhyrchion ymlacio ar wasanaethau cemegol megis goleuo gwallt
 - b. pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr wrth ddefnyddio cynhyrchion ymlacio
-

Canlyniad dysgu

Bydd y dysgwr yn:

- 6. Deall y broses ar gyfer ymlacio gwallt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall sut i:

- 6.1 Esbonio'r effeithiau ar strwythur y gwallt wrth ymlacio gwallt
 - a. effeithiau triniaethau ymlacio cyn- ac ôl-driniaethau ar strwythur y gwallt
 - b. sut i weadu gwallt
- 6.2 Disgrifio sut a phryd y mae profion ymlacio'n cael eu cynnal
 - a. y dull o wirio datblygiad wrth weadu
 - b. y dull o wirio datblygiad ymlaciwr
- 6.3 Disgrifio dulliau o roi cynhyrchion ymlacio
 - a. y dull a'r drefn o roi cynhyrchion ymlacio a normaleiddio
- 6.4 Esbonio pwysigrwydd cwestiynu cleientiaid cyn ac yn ystod gwasanaethau
 - a. anghysur potensial y gall cleientiaid ei brofi yn ystod y broses ymlacio a pham mae hi'n bwysig gwirio eu llesiant
- 6.5 Esbonio effeithiau ac effeithiau posibl tymheredd ar gynhyrchion ymlacio
 - a. sut i addasu tymheredd, pwysedd a chyfeiriad y dŵr i amddiffyn cyflwr y gwallt
 - b. effeithiau ac effeithiau posibl tymheredd ar gynhyrchion ymlacio
- 6.6 Esbonio'r effeithiau ar strwythur y gwallt wrth ymlacio gwallt
 - a. sut mae siampŵau niwtraleiddio'n gweithio a'u heffaith ar strwythur y gwallt
 - b. pwysigrwydd ac effeithiau adfer cydbwysedd pH y gwallt ar ôl y broses ymlacio
- 6.7 Esbonio'r ffactorau a allai ddylanwadu ar y gwasanaethau
 - a. sut y gall y gwahanol ffactorau sy'n dylanwadu effeithio ar y broses ymlacio
- 6.8 Adnabod y mathau o broblemau a'u hachosion a all ddigwydd yn ystod gwasanaethau

- a. effaith cynhyrchion yn gorgyffwrdd ar wallt sydd eisoes wedi'i drin yn gemegol
 - b. mathau ac achosion problemau all ddigwydd yn ystod y broses ymlacio a gweadu
- 6.9 Nodi pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r salon a gwneuthurwyr yn ystod gwasanaethau ymlacio
- a. pam mae amseru cywir a rinsio'r cynhyrchion yn drylwyr yn angenrheidiol
 - b. dulliau o ddatrys problemau ymlacio
- 6.10 Disgrifio ffyrdd o ddelio gyda phroblemau ymlacio
- a. cyfyngiadau eich awdurdod eich hun ar gyfer datrys problemau ymlacio
 - b. y person y dylech chi reportio problemau iddynt na allwch chi eu datrys
 - c. sut i ddelio gyda llid croen y pen yn ystod y broses ymlacio
- 6.11 Amlinellu pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn gost effeithiol
- a. pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn ddarbodus
- 6.12 Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i gleientiaid
- a. pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon

Uned 207

Triniaethau a thechnegau ymlacio gwallt

Gwybodaeth Gefnogol

Gofynion tystiolaeth

1. Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth o berfformio yn yr uned hon.
2. Bydd angen i chi arddangos yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer datblygu sgiliau ymgynghori â chleientiaid.
3. Bydd eich Asesydd yn arsylwi'r agweddau hyn o'ch perfformiad ar **o leiaf 2 achlysur ar gyfer prosesau ymlacio**.
4. O'r amrediad, rhaid i chi ddangos eich bod wedi:
 - defnyddio'r **holl** gynhyrchion yn yr ystod
 - cynnal yr **holl** brofion yn yr ystod
 - defnyddio **3 o'r 4** math o offer sydd wedi'u rhestru
 - ystyried yr **holl** ffactorau sydd wedi'u rhestru yn yr ystod
 - defnyddio **pob un** o'r technegau rhoi
 - cynnal ymlacio mewn **2 o'r 3** ardal sydd wedi'u rhestru yn yr ystod
 - wedi rhoi'r **holl** gyngor ac argymhellion
5. Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch aseswr eich bod yn meddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr amrediad hwn.

Gall sgiliau neu wybodaeth o'r amrediad sy'n weddill gael eu dangos drwy unrhyw ffurf o bortffolio tystiolaeth:

- Prosiectau/astudiaethau achos
- Gwaith wedi'i arsylwi
- Datganiadau tystion
- Cyfryngau clyweledol
- Tystiolaeth o ddysgu neu gyflawniad blaenorol
- Aseiniadau ysgrifenedig
- Cwestiynau llafar
- Aseiniadau
- Astudiaethau achos
- Trafodaeth broffesiynol
- Dyddiadur adfyfyriol ar eu hymarfer eu hunain mewn amgylchedd gwaith priodol
- Gwaith cwrs

Lefel uned:	3
ODDA:	90
Nod yr uned:	<p>Bydd y prentis yn gallu:</p> <p>Cysylltu amrywiaeth o estyniadau; torri a gorffen estyniadau; a chynnal a symud estyniadau.</p> <p>Bydd y prentis yn gwybod ac yn deall:</p> <p>Tyfiant gwallt, ffactorau sy'n dylanwadu a gwrth-arwyddion, mathau o estyniadau gwallt a chynhyrchion, technegau rhoi a thynnu ac egwyddorion blendio gwallt.</p>
Dull Asesu:	Portffolio a phrawf ar-lein wedi'i osod yn allanol NEU brawf cwestiynau atebion byr ar bapur.

Canlyniad dysgu

1. Defnyddio arferion gwaith diogel wrth weithio gydag estyniadau gwallt

Sgiliau ymarferol

Bydd y dysgwr yn gallu:

- 1.1 Paratoi gwasanaethau estyniadau gwallt
 - a. amddiffyn dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
- 1.2 Defnyddio dulliau gweithio diogel a hylan drwy gydol y gwasanaethau
 - a. lleoli eich cleient i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth heb achosi anghysur iddyn nhw
 - b. sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
 - c. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
 - ch. defnyddio dulliau gwaith sy'n:
 - lleihau'r risg o ddifrod i offer torri
 - lleihau'r risg o draws-heintiad
 - gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gwaith
 - sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
 - mae'r rhain yn lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi'ch hun ac i eraill

- hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
 - d. sicrhau bod eich hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
 - dd. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel
 - e. gwaredu deunyddiau gwastraff
- 1.3 Cynnal gwasanaethau estyniadau gwallt
- a. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol hyfyw
-

Ystod

(1.2 d) Cyfarpar torri:

- siswrn
- siswrn teneuo
- raseli

(1.2 d) Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy:

Y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

- lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, aildefnyddio, gwaredu'n ddiogel)
 - lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt ynni effeithlon, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
 - lleihau'r defnydd o ddŵr ac o adnoddau eraill
 - atal llygredd
 - defnyddio eitemau y gellir eu taflu (tywelion sychu'n hawdd)
 - defnyddio dodrefn eco gyfeillgar wedi'u hailgylchu,
 - defnyddio paent isel ei gemegion
 - defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhydd o alergeddau
 - defnyddio lliwyddion gwallt isel iawn eu hamonia
 - defnyddio pecynnu cynhyrchion sy'n garedig wrth yr amgylchedd
 - dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
 - annog teithiau i'r gwaith sy'n lleihau carbon
-

Canlyniad dysgu

2. Deall sut mae polisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn effeithio ar wasanaethau estyniadau gwallt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Byddwch yn gwybod ac yn deall:

- 2.1 Amlinellu cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch yn eich rôl eich hun
- a. eich cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n trafod rôl eich swydd
 - b. yr amrediad o ddillad amddiffynnol a ddylai fod ar gael i gleientiaid
 - c. pwysigrwydd hylendid personol, amddiffyniad ac ymddangosiad wrth gynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle
- 2.2 Disgrifio dulliau ac arferion gwaith diogel a hylan y mae'n rhaid eu dilyn drwy gydol y gwasanaethau
- a. gofynion eich cleient ar gyfer paratoi'r cleient

- b. sut y gall osgo eich cleient a'ch osgo eich hun effeithio ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
 - c. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
 - ch. Pam mae hi'n bwysig gosod eich offer, cynhyrchion a chyfarpar i fod yn hawdd eu defnyddio
 - d. y dulliau cywir o waredu gwastraff
 - dd. beth yw dermatitis cyswllt a sut i osgoi ei ddatblygu tra'n defnyddio systemau estyniadau gwallt
 - e. pam mae hi'n bwysig cadw eich ardal waith yn lân ac yn drefnus
 - f. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio sy'n cael eu defnyddio mewn salonau
 - g. dulliau o weithio'n ddiogel ac yn hylan sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad a phlâu
-

Ystod

(2.1 a) Iechyd a diogelwch:

Eich cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch fel y'u diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n trafod rôl eich swydd

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

- Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
 - Gorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân)
 - Rheoliadau Gweithrediadau Trin â Llaw
 - Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)
 - Rheoliadau Trydan yn y Gwaith
 - Deddf Diogelu'r Amgylchedd
 - Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
 - Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogedigion)
-

Canlyniad dysgu

3. Cynnal gwasanaethau estyniadau gwallt

Sgiliau ymarferol

Bydd y dysgwr yn gallu:

3.1 Cynllunio i ychwanegu estyniadau gwallt

- a. archwilio'r gwallt a chroen y pen i nodi unrhyw ffactorau allai effeithio ar y gwasanaeth
- b. gofyn cwestiynau priodol i'ch cleient i gael gwybod am unrhyw wrth-arwyddion hysbys i'r gwasanaeth estyniadau gwallt
- c. cofnodi atebion eich cleient i gwestiynau
- ch. cynnal amrywiaeth o brofion ar wallt a chroen eich cleient gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a gweithdrefnau cydnabyddedig y diwydiant
- d. dilyn camau addas pan fydd gwrth-arwyddion yn achosi amheuan ynghylch addasrwydd y gwasanaeth i'r cleient
- dd. dewis systemau cysylltu ac estyniadau gwallt sydd â:
 - gwead addas

- lliw addas
- hyd addas
- lled addas

- 3.2 cadarnhau gofynion y gwasanaeth cyn archebu systemau cysylltu ac estyniadau gwallt
- paratoi a chysylltu estyniadau gwallt
 - paratoi systemau cysylltu ac estyniadau gwallt i osgoi gwastraff, clymau ac i gwrdd â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
 - paratoi gwallt eich cleient mewn modd sy'n addas ar gyfer y system gysylltu fydd yn cael ei defnyddio
 - sicrhau bod cymorth ar gael lle bo angen

- 3.3 Ymgynghori gyda chleientiaid i gadarnhau'r olwg a ddymunir
- cadarnhau gyda'ch cleient yr edrychiad y cytunwyd arno yn ystod yr ymgynghoriad cyn dechrau'r gwasanaeth
 - gwirio cysur eich cleient yn rheolaidd a chynnig geiriau o gadarnhad priodol os oes angen

3.4 Cynnal gwasanaethau estyniadau gwallt

- rhannu adrannau'r gwallt yn lân ac yn gyson i gwrdd â gofynion y systemau cysylltu fydd yn cael eu defnyddio
- rhannu'r gwallt yn adrannau mewn ffordd fydd yn caniatáu i'r estyniadau gwallt orwedd yn y cyfeiriad angenrheidiol
- sicrhau unrhyw wallt nad yw'n cael ei estyn i gadw pob adran yn glir yn y golwg
- defnyddio systemau cysylltu i sicrhau estyniadau gwallt ar wallt eich cleient i gwrdd â gofynion steil
- ychwanegu a chysylltu gwallt mewn ffordd sy'n cymryd i ystyriaeth y ffactorau sy'n dylanwadu ar y gwasanaeth
- cynnal tensiwn cyson drwy gydol y broses gysylltu
- adnabod a datrys unrhyw broblemau sy'n digwydd yn ystod y gwasanaeth
- sicrhau, ar ôl gorffen, fod yr estyniadau gwallt yn rhoi edrychiad cytbwys a chymesur

3.5 Torri a gorffen gwallt gydag estyniadau

- sefydlu a dilyn canllawiau torri addas i gyflawni'r edrychiad gorffenedig
- addasu eich technegau torri i gymryd i ystyriaeth ffactorau sy'n dylanwadu ar weithio ar estyniadau gwallt
- addasu eich dulliau croeswrio i siwtio cwmp yr estyniadau gwallt
- addasu eich osgo a'ch lleoliad i sicrhau cywirdeb y toriad (P33)
- cyfuno ac addasu eich technegau torri i gyflawni'r edrychiad gorffenedig
- gwneud gwiriadau terfynol i sicrhau bod y toriad yn gywir
- defnyddio technegau gorffen creadigol sy'n cyflenwi'r toriad gorffenedig
- defnyddio cynhyrchion steilio a gorffen addas, pan fo angen, i gyflawni'r edrychiad gorffenedig
- cadarnhau bod eich cleient yn fodlon gyda'r edrychiad gorffenedig
- rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

3.6 Cynnal a thynnu estyniadau gwallt

- a. cynnal a thynnu estyniadau gwallt yn dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
- b. defnyddio'r offer cywir i leihau niwed i wallt eich cleient
- c. defnyddio'r cynhyrchion a'r offer cywir i dynnu estyniadau, pan fo angen, gan osgoi niwed i wallt eich cleient
- ch. gadael gwallt eich cleient yn rhydd o olion a chynnyrch sy'n crynhoi
- d. gadael gwallt eich cleient yn lân ac wedi'i baratoi yn barod ar gyfer y gwasanaeth nesaf

3.7 Darparu cyngor ac argymhellion i gleientiaid ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu

- a. rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Ystod

(3.1 a) Ffactorau:

- nodweddion gwallt
- dosbarthiad gwallt
- canlyniadau profion
- dull cysylltu
- cyfeiriad a chwymp y gwallt ychwanegol
- hyd gwallt y cleient ei hun
- difrod amlwg i'r gwallt
- swm y gwallt ychwanegol
- siâp y pen a'r wyneb
- edrychiad gorffenedig

(3.1 f) Systemau cysylltu:

- tymor byr
- tymor hir

(3.4e) Ychwanegu a chysylltu:

- pen llawn
- pen rhannol

(3.3b, 2.3e) Technegau torri:

- torri pwynt
- tapro
- llaw rydd
- raselu
- gweadu

(3.5 g) Technegau gorffen creadigol:

- sychu
- defnyddio cynhyrchion
- setio
- y defnydd o gyfarpar steilio wedi'i wresogi

(3.6) Estyniadau gwallt:

- artiffisial
- dynol
- clipio i mewn
- anwe-gwe i mewn
- gludo i mewn

(3.7) Cyngor ac argymhellion:

- sut i gynnal y system gysylltu
- cyfnod amser rhwng gwasanaethau
- cynhyrchion a gwasanaethau presennol a rhai'r dyfodol

Canlyniad dysgu

4 Gwybod sut i gynllunio, paratoi a chysylltu estyniadau gwallt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall:

- 4.1 Esbonio'r ffactorau a allai ddylanwadu ar y gwasanaethau
 - a. sut i gynnal archwiliad o'r gwallt a chroen y pen i adnabod ffactorau fydd yn effeithio ar y system cysylltu gwallt
 - b. y ffactorau y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth cyn ychwanegu a chysylltu estyniadau gwallt
 - c. sut y gall gwrth-arwyddion effeithio neu gyfyngu ar ddarparu gwasanaethau estyniadau gwallt
- 4.2 Esbonio cylch tyfiant y gwallt
 - a. esbonio cylch twf y gwallt
- 4.3 Esbonio pwysigrwydd cwestiynu cleientiaid cyn ac yn ystod gwasanaethau
 - a. pwysigrwydd holi cleientiaid i sefydlu unrhyw wrth-arwyddion i wasanaethau ymestyn gwallt
 - b. arwyddocâd cyfreithiol cwestiynu'r cleient a chofnodi ymatebion y cleient
- 4.4 Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i'r cleient ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu a'r cynhyrchion sydd ar gael
 - a. polisi eich salon ar gyfer cyfeirio cleientiaid at weithwyr proffesiynol eraill megis tricolegydd, meddyg teulu a'r gwasanaethau arbenigol y maen nhw'n gallu eu cynnig
 - b. y mathau o bryderon sy'n cael eu profi'n gyffredin gan gleientiaid sy'n cael y gwahanol systemau cysylltu gwallt megis colli gwallt yn naturiol
 - c. sut i helpu i liniaru pryderon cleientiaid mewn modd cysurlon
- 4.5 Disgrifio pryd a sut y mae profion yn cael eu cynnal
 - a. mathau a phwrpasau profion
- 4.6 Esbonio sut mae canlyniadau profion yn dylanwadu ar estyniadau gwallt
 - a. sut y gall canlyniadau profion ddylanwadu ar bob agwedd o'r gwasanaeth
- 4.7 Esbonio pwysigrwydd profi'r gwallt a chroen y pen cyn cynnal gwasanaethau estyniadau gwallt
 - a. canlyniadau potensial methu â chynnal profion a phwysigrwydd cofnodi canlyniadau profion
- 4.8 Esbonio'r gwahanol fathau o systemau cysylltu gwallt
 - a. y mathau o systemau estyniadau gwallt sydd ar gael a'u manteision a'u hanfanteision
 - b. yr egwyddorion ar gyfer dewis y systemau cysylltu gwallt cywir
 - c. sut i amcangyfrif pa mor hir y gall systemau cysylltu gwallt eu cymryd
 - ch. dulliau o roi systemau cysylltu gwallt tymor byr a thymor hir
- 4.9 Esbonio egwyddorion blendio gwallt wedi'i ychwanegu
 - a. yr egwyddorion ar gyfer blendio gwallt ychwanegol
 - b. sut i gymysgu nifer o liwiau gwallt ychwanegol i roi effeithiau o liw bloc ac aroleuo
- 4.10 Esbonio pam mae hi'n bwysig paratoi'r gwallt cyn cysylltu estyniadau gwallt
 - a. y gwahaniaethau cyffredinol o ran gofynion paratoi rhwng gwallt dynol a gwallt artiffisial
 - b. sut y dylai gwallt y cleient gael ei baratoi ar gyfer pob un o'r systemau cysylltu gwallt

- 4.11 Esbonio pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r salon a'r gwneuthurwyr ar gyfer cynhyrchion, offer a chyfarpar
 - a. pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer gwahanol systemau cysylltu gwallt
 - b. y systemau cysylltu gwallt y gallai bod angen cymorth arnoch chi i'w gosod
- 4.12 Disgrifio'r gwahanol ddulliau o gysylltu, cynnal a symud estyniadau gwallt
 - a. sut i farnu faint o wallt sydd i'w ychwanegu i gyflawni edrychiad gorffenedig cytbwys a chymesur
- 4.13 Esbonio'r gwahanol fathau o systemau cysylltu gwallt
 - a. sut y gall y steil a fwriedir effeithio ar y dewis a lleoliad systemau cysylltu gwallt gwahanol
- 4.14 Esbonio pwysigrwydd dilyn cyfarwyddiadau'r salon a'r gwneuthurwyr ar gyfer cynhyrchion, offer a chyfarpar
 - a. pam mae hi'n bwysig cynnal tensiwn cywir a chyson wrth ychwanegu estyniadau gwallt
 - b. yr offer a'r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer pob dull cysylltu a sut y maen nhw'n cael eu defnyddio
- 4.15 Esbonio'r mathau ac achosion problemau estyniadau gwallt
 - a. y mathau o broblemau sy'n gallu digwydd wrth ychwanegu estyniadau gwallt a sut i'w datrys
 - b. y mathau o gynhyrchion a thechnegau gorffen sy'n addas i'w defnyddio gydag estyniadau gwallt

Canlyniad dysgu

- 5 Gwybod sut i dorri a gorffen estyniadau gwallt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall:

- 5.1 Disgrifio sut a phryd i addasu technegau torri i siwtio'r edrychiad gorffenedig
 - a. sut i ddefnyddio technegau torri creadigol i flendio gwallt y cleient ei hun a gwahanol system gysylltu gwallt i siwtio'r edrychiad gorffenedig
 - b. sut i addasu technegau torri i siwtio gwahanol fathau o estyniadau gwallt megis artiffisial a dynol
 - c. pwysigrwydd croeswiro'r toriad am gywirdeb

Canlyniad dysgu

- 6 Gwybod sut i gynnal a symud estyniadau gwallt

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Bydd y dysgwr yn gwybod ac yn deall:

- 6.1 Esbonio pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion i'r cleient ar y gwasanaeth(au) sy'n cael eu darparu a'r cynhyrchion sydd ar gael
 - a. pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon

- b. sut i gynnal a symud y system cysylltu gwallt
- c. y cyfnod sy'n cael ei argymhell rhwng gwasanaethau
- ch. sut y bydd ffordd o fyw'n effeithio ar gynnal a hirhoedledd pob system cysylltu gwallt
- d. y mathau o gynhyrchion ac offer a ddefnyddir i dynnu gwahanol systemau cysylltu gwallt
- dd. pam mae hi'n bwysig i symud olion cysylltu gwallt a chynnyrch sy'n crynhoi fel rhan o'r broses symud estyniadau gwallt

Gwybodaeth Gefnogol

Gofynion tystiolaeth

1. Nid yw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer unrhyw dystiolaeth o berfformio yn yr uned hon.
2. Rhaid i chi ddangos yn ymarferol yn eich gwaith bob dydd eich bod wedi cwrdd â'r safon ar gyfer darparu gwasanaethau ymestyn gwallt creadigol.
3. Bydd eich Asesydd yn arsylwi eich perfformiad ar **3 achlysur, pob un ar gleient gwahanol**.
4. O'r amrediad, rhaid i chi ddangos eich bod wedi:
 - defnyddio **2 o'r 3** offer torri
 - cymryd i ystyriaeth **yr holl** ffactorau
 - defnyddio'r **ddwy** system cysylltu
 - defnyddio **pob** estyniad gwallt
 - gwneud estyniadau pen llawn **a** phen rhannol
 - defnyddio **3 o'r 5** techneg torri
 - defnyddio **3 o'r 4** techneg gorffen creadigol
 - rhoi'r **holl** gyngor ac argymhellion
5. Fodd bynnag, rhaid i chi brofi i'ch aseswr eich bod yn meddu ar yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau angenrheidiol i allu perfformio'n gymwys mewn perthynas â'r holl eitemau yn yr amrediad hwn.

Gall sgiliau neu wybodaeth o'r amrediad sy'n weddill gael eu dangos drwy unrhyw ffurf o bortffolio tystiolaeth:

- Prosiectau/astudiaethau achos
- Gwaith wedi'i arsylwi
- Datganiadau tystion
- Cyfryngau clyweledol
- Tystiolaeth o ddysgu neu gyflawniad blaenorol
- Aseiniadau ysgrifenedig
- Cwestiynau llafar
- Aseiniadau
- Astudiaethau achos
- Trafodaeth broffesiynol
- Dyddiadur adfyfyriol ar eu hymarfer eu hunain mewn amgylchedd gwaith priodol
- Gwaith cwrs

Atodiad 1 Gwybodaeth a Sgiliau Craidd Gorfodol

Proffesiynoldeb a gwerthoedd

Bydd y Prentis yn gallu:

- 1 arddangos proffesiynoldeb
- 2 arddangos angerdd dros y diwydiant a gwybodaeth am y diwydiant
- 3 ymrwymiad i ansawdd
- 4 agwedd gadarnhaol
- 5 gweithio mewn tîm
- 6 gweithio dan bwysau
- 7 rheoli amser a rheoli ei hun
- 8 agwedd gadarnhaol
- 9 dangos parodrwydd i ddysgu
- 10 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n hyfyw'n fasnachol ac i safon uchel
- 11 cwrdd â safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant
- 12 cadw at foeseg ac ymddygiad proffesiynol
- 13 sicrhau bod hylendid personol ac amddiffyniad yn cwrdd â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
- 14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr ar gyfer defnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

Bydd y Prentis yn gwybod ac yn deall:

- 1 codau ymarfer a moeseg y diwydiant
- 2 systemau sicrhau ansawdd
- 3 egwyddorion rheoli amser
- 4 egwyddorion hunanreolaeth
- 5 amseroedd sy'n hyfyw'n fasnachol ar gyfer cwblhau gwasanaethau
- 6 safonau ymddangosiad y diwydiant a'r sefydliad
- 7 pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus, cydraddoldeb ac amrywiaeth

Ymddygiadau a chyfathrebu

Bydd y prentis yn gallu:

- 1 cyfarch cleientiaid mewn ffordd gyfeillgar
- 2 dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleientiaid
- 3 bod yn ddefnyddiol ac yn gwrtais bob amser
- 4 addasu ymddygiad mewn ymateb i bob cleient
- 5 ymateb yn brydlon i gwestiynau a sylwadau cleientiaid ac i gleientiaid sy'n ceisio cymorth
- 6 sefydlu disgwyliadau ac anghenion cleientiaid
- 7 esbonio'n glir unrhyw resymau pam nad oes modd cwrdd ag anghenion neu ddisgwyliadau'r cleient
- 8 cadw'r cleient wedi'i hysbysu
- 9 rhoi gwybodaeth i gleientiaid am wasanaethau neu gynhyrchion sy'n cael eu cynnig gan y salon
- 10 ymgymryd o wirfodd â dyletswyddau ehangach yn y salon, yn cynnwys dyletswyddau dderbynfa a gwerthu pan fo angen
- 11 arddangos sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau da
- 12 rhoi argraff gadarnhaol ohono'i hun ac o'i sefydliad

Bydd y prentis yn gwybod ac yn deall:

- 1 safonau ymddygiad y diwydiant a'r salon
- 2 sut i gwrdd a chyfarch cleientiaid
- 3 technegau cyfathrebu geiriol a di-eiriau
- 4 egwyddorion ac arferion gofalu am gleientiaid
- 5 sut i gynnal perthynas gyda chleientiaid
- 6 rôl ardal y dderbynfa
- 7 gwneud apwyntiadau
- 8 cymryd taliadau
- 9 at bwy i gyfeirio gyda gwahanol fathau o ymholiadau neu broblemau a pha bryd i ofyn am gyngor
- 10 y Ddeddf Gwerthu Nwyddau a'r Ddeddf Diogelu Data
- 11 sut i roi cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn y salon
- 12 gofal cwsmeriaid a thaith y cleient, yn cynnwys y dderbynfa, gofal tŷ, sgiliau blaen y tŷ
- 13 gwerthu ac argymhellion (adwerthu)

Atodiad 2 Geirfa

Geirfa

Mae'r eirfa hon yn darparu diffiniadau ac esboniadau o'r termau sy'n cael eu defnyddio ym mhob un o'r unedau 6008.

Cyflyrau andwyol gwallt, croen a chroen y pen

Enghreifftiau yw'r rhain o gyflyrau sy'n gallu cael effaith ar pa wasanaeth a sut y mae'n cael ei ddarparu i gleientiaid:

- soriasis
- alopesia
- codenni
- impetigo
- creithiau
- manau geni

Techneg rhannu'n adrannau

Yn cynnwys pyrm 6 adran a phyrm 9 adran

Cynhyrchion tylino (enghreifftiau)

Gall y rhain gynnwys

- cyflyrwyr arwyneb, yn cynnwys rhai sy'n cael eu gadael i mewn
- cyflyrwyr treiddiol, yn cynnwys rhai sy'n cael eu gadael i mewn
- triniaethau croen y pen, yn cynnwys gadael i mewn

Gwrth-arwyddion

Cyflyrau sy'n dangos na ddylai gwasanaeth gael ei wneud.

Terminoleg torri:

Toriad hir wedi graddoli

Toriad hir wedi graddoli yw lle mae haenau mewnol hyd y gwallt yn fyrrach na siâp yr amlinell

Toriad un hyd

Toriad un hyd yw lle mae'r gwallt yn cael ei dorri i'r un hyd allanol

Toriad byr wedi graddoli

Toriad byr wedi graddoli yw pan mae haenau mewnol hyd y gwallt yn hirach na siâp yr amlinell

Toriad haenog unffurf

Toriad haenog unffurf yw lle mae pob adran o'r gwallt yr un hyd

Diheintio

Yn atal twf clefydau sy'n achosi micro-organebau (ac eithrio sborau) gan ddefnyddio cyfryngau cemegol.

Effleurage

Symudiad mwytho tyner.

Ffactorau sy'n dylanwadu ar wasanaethau

Unrhyw beth allai effeithio ar y gwasanaeth trin gwallt. Fe welwch fod y ffactorau hyn wedi cael eu rhestru yn y datganiad amrediad ar gyfer pob canlyniad.

Plethen cynffon pysgodyn

Plethen pedair tres sy'n cael ei chyflawni drwy groesi pedwar darn o wallt dros ei gilydd i greu edrychiad patrwm saethben

Troell fflat

Lle mae'r gwallt yn cael ei rolïo a'i droelli gan y llaw i orwedd yn fflat ar groen y pen.

Llaw rydd

Torri'r gwallt heb ei ddal yn ei le.

Plethen Ffrengig

Gelwir hon yn blethen Congo neu'n blethen Guinea. Plethen sengl, wrthdro yw hi.

Ffrithiant

Symudiad rhwbio trwyadl gan ddefnyddio padiau'r bysedd. Mae'n gynhyrfiol yn hytrach nag ymlaciol ac nid yw'n cael ei wneud bob amser. Dim ond am ychydig funudau y mae'n cael ei wneud, gan weithio o'r blaen i'r cefn.

Llinell gwddf lawn

Gwallt hyd coler.

Nodweddion gwallt

Yn cynnwys y canlynol:

- Dwysedd gwallt
- Gwead gwallt
- Elastigedd y gwallt
- Mandylledd gwallt
- Cyflwr gwallt
- Patrymau tyfiant gwallt

Dosbarthiad gwallt (canllaw yn unig yw hwn)

Math 1 – Gwallt Syth

- Main/Tenau - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn feddal iawn, yn sgleiniog ac olewog, a gall fod yn anodd iddo gadw cwrl.
- Canolig - mae gan y gwallt lawer o sylwedd a swmp.
- Cwrs – mae'r gwallt fel arfer yn hynod o syth ac yn anodd ei gyrlio

Math 2 – Gwallt tonnog

- Main/Tenau - mae gan y gwallt batrwm 'S' pendant. Fel arfer mae'n gallu cyflawni nifer o steiliau gwahanol
- Canolig - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn grychlyd ac ychydig yn wrthwynebol i gael ei steilio
- Cwrs – mae'r gwallt hefyd yn gwrthsefyll cael ei steilio ac fel arfer mae'n hynod o grychlyd; mae'n tueddu i fod â thonnau mwy trwchus

Math 3 – Gwallt cyrliog

- Cyrllau rhydd - mae'r gwallt yn tueddu i fod â gwead cyfunol. Mae'n gallu bod yn drwchus a llawn gyda llawer o gorff, gyda phatrwm 'S' pendant. Mae hefyd yn tueddu i fod yn grychlyd.
- Cyrllau tynn - hefyd yn tueddu i fod â gwead cyfunol, gyda maint canolig o gwrl.

Math 4 – Gwallt Cyrliog iawn

- Meddal - mae'r gwallt yn tueddu i fod yn fregus iawn, wedi'i dorchi'n dynn ac mae ganddo batrwm cyrliog mwy diffiniedig.
- Gwrychog - hefyd yn fregus iawn ac wedi'i dorchi'n dynn; fodd bynnag mae'r patrwm cyrliog yn llai diffiniedig - mae ganddo siâp patrwm mwy fel "Z".

Cyfarpar poeth

e.e. Rholeri wedi'u gwresogi, gefeiliau, sythwyr gwallt

Cynhyrchion goleuo

Cynhyrchion sy'n goleuo pigmentau naturiol yn y gwallt heb roi lliw artiffisial; enw arall arnynt yw cannydd neu gyn-oleuwyr.

Cyfyngiadau ei awdurdod ei hun

Graddau eich cyfrifoldeb fel sy'n cael ei bennu gan eich disgrifiad swydd eich hun a pholisiau'r gweithle.

Estyniadau gwallt tymor hir

Estyniadau gwallt sy'n para chwe wythnos neu fwy

- bond poeth neu ymdoddiad
- cylch neu ddolenni micro
- gweadau seiliedig ar resi corn
- plethi rhesi corn

Cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan wneuthurwyr neu gyflenwyr cynhyrchion neu gyfarpar mewn perthynas â'u defnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol.

Barf rannol

Unrhyw flew wyneb nad yw'n farf lawn neu'n fwstas

Cyflwyniad personol

Mae hyn yn cynnwys hylendid personol; y defnydd o gyfarpar diogelu personol; dillad ac ategolion addas i'r gweithle penodol.

Cyfarpar diogelu personol (PPE)

Mae gofyn i chi ddefnyddio a gwisgo'r cyfarpar neu ddillad diogelu personol priodol wrth ddefnyddio neu weithio gyda chemegion megis lliwiau a phyrniau. Mae menig a ffedogau gwarchod yn ofniad arferol ar gyfer y math hyn o weithgareddau.

Petrissage

Symudiad tylino araf a chadarn.

Triniaeth cyn pyrmio

Cynnyrch sy'n cael ei roi ar wallt cyn gwasanaeth cemegol i gysoni mandylledd ar hyd coesyn y gwallt.

Lliw ffug-barhaol

Cynhyrchion lliwiau a ddylai gael eu trin fel lliwiau parhaol o ran profi a gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r cynhyrchion hyn yn cael eu cymysgu gydag ocsideiddwyr megis hydrogen perocsid cryfder isel ac mae disgwyl iddyn nhw bara hyd at 12 siampw fel arfer, gan ddibynnu ar fandylledd y gwallt.

Person perthnasol

Unigolyn yr ystyrir ei fod yn gyfrifol am eich goruchwyllo yn ystod tasg neu wasanaeth penodol neu'r person rydych fel arfer yn adrodd iddo, megis eich rheolwr llinell. Yn y Safonau penodol hyn, gall hefyd gyfeirio at unigolyn y mae'r salon yn ei ystyried yn gyfrifol am feysydd a gwasanaethau penodol.

Adnoddau

Unrhyw beth a ddefnyddir i helpu i ddarparu a chwblhau'r gwasanaeth fel tywelion, gynau, cyfarpar, eitemau traul.

Cylchol

Symudiad cylchol cadarn gan ddefnyddio padiau'r bysedd dros arwyneb croen yr wyneb

Gofynion salon

Unrhyw weithdrefnau trin gwallt neu reolau gwaith sy'n cael eu cyhoeddi gan reolwyr y salon

Lliw lled barhaol

Lliw lle nad yw ocsideiddwyr yn cael ei ychwanegu y mae disgwyl iddo bara hyd at 8 siampw fel arfer gan ddibynnu ar fandylledd y gwallt.

Gwallt wedi'i sensiteiddio

Gwallt sydd â strwythur mewnlol bregus yn naturiol neu wedi'i achosi gan ffactorau mecanyddol, cemegol a/neu amgylcheddol.

Cyngor arbennig cyn ymweliad

e.e. Gofynion arbennig o ran dillad, profion gofynnol, triniaethau a gwasanaethau i'w hosgoi

Sterileiddiad

Dinistrio micro-organebau'n llwyr.

Rasel syth

Rasel hen ffasiwn gyda llafn sy'n gallu plygu i mewn i'r ddolen. Maen nhw hefyd yn cael eu galw'n raseli agored a raseli hir.

Prawf cudyn

Defnyddir y prawf hwn yn y broses aildrefnu i sefydlu effaith y cynnyrch ar y gwallt a'i gyflwr, megis, graddfa'r sythder sydd wedi'i gyflawni cyn dirwyn.

Tapro

Mae tapro estyniadau gwallt yn ychwanegu gwead ac ysgafnder i wallt hir, syth i asio a meddalu'r gorffeniad cyffredinol

Atodion gwallt dros dro

Systemau cysylltu gwallt sy'n para unrhyw beth rhwng 24 awr a chwech wythnos

- wedi gwnïo
- wedi plethu
- cylchoedd
- tapiau
- darnau gwallt ac ychwanegiadau i'w clipio i mewn
- gwead wedi'i dapio
- bondio oer (latecs)
- gwallt wedi'i weadu - traciau/rhesi
- rhesi corn wedi'u plethu

Profion

Bydd prawf yn pennu a yw cleient yn addas ar gyfer gwasanaeth penodol megis prawf croen sy'n dangos a oes gan y cleient alergedd i gynnyrch neu gemegyn.

Gweadu (drwy dorri)

Cyflwyno gwahanol hydroedd mewn rhannau o'r toriad gwallt, neu drwy'r cyfan, i feddal llinell galed neu i greu codiad gwreiddiau.

Gweadu (yn defnyddio cemegion)

Dull o ymlacio gwallt Affricanaidd sy'n lleihau'r patrwm cwrl naturiol, i adael y gwallt yn fwy meddal a haws ei drin. Mae'r broses yma'n cael ei defnyddio ar wallt hyd at 5cm (2 fodfedd) o hyd.

Alopesia tyniant

Colli gwallt oherwydd tensiwn gormodol neu barhaus ar y gwallt megis gwisgo estyniadau neu blethu'n rheolaidd.

Trimwyr

Clipwyr bach gyda llafnau llai i greu toriad agosach, mwy main gyda mwy o ddiffiniad a manylion

Dirgryniad

Symudiad ysgafn, tyner o'r meinweoedd sy'n cael ei berfformio gan eich llaw neu'ch bysedd.

Setio lapio

Pan fydd gwallt yn cael ei droelli'n glocwedd neu'n wrthglocwedd fel bod siâp y pen yn ffurfio siâp gorffenedig y gwallt.

Atodiad 3 Cysylltiadau Defnyddiol

Dysgwyr y DU

Gwybodaeth gyffredinol am y cymhwyster

Ffôn: +44 (0)844 543 0033

E-bost: learnersupport@cityandguilds.com

Dysgwyr rhyngwladol

Gwybodaeth gyffredinol am y cymhwyster

Ffôn: +44 (0)844 543 0033

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: intcg@cityandguilds.com

Canolfannau

Ceisiadau arholiad, Cofrestriadau/ymrestru, Anfonebau, Deunydd arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau, Canlyniadau

Ffôn: +44 (0)844 543 0000

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: centresupport@cityandguilds.com

Cymwysterau pwnc unigol

Ceisiadau arholiad, Canlyniadau, Ardystio, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Papurau arholiad anghywir, Ceisiadau am ffurflenni (BB, bwydo canlyniadau), newid dyddiad ac amser arholiad

Ffôn: +44 (0)844 543 0000

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

Ffacs: +44 (0)20 7294 2404 (ffurflenni BB)

E-bost: singlesubjects@cityandguilds.com

Dyfarniadau rhyngwladol

Canlyniadau, Ceisiadau, Ymrestriadau, Anfonebau, Deunyddiau arholiad hwyr neu ar goll, Adroddiadau rhestri enwau

Ffôn: +44 (0)844 543 0000

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: intops@cityandguilds.com

Walled Garden

Ailgyhoeddi cyfrinair neu enw defnyddiwr, Problemau technegol, Ceisiadau, Canlyniadau, e-asesu, Llywio, Dewis defnyddiwr/dewislen, Problemau

Ffôn: +44 (0)844 543 0000

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

E-bost: walledgarden@cityandguilds.com

Cyflogwr

Datrysiaidau cyflogwyr, Mapio, Achredu, Sgiliau Datblygu, Ymgynghoriaeth

Ffôn: +44 (0)121 503 8993

E-bost: business@cityandguilds.com

Cyhoeddiadau

Llyfrau log, Dogfennau'r ganolfan, Ffurflenni, Llenyddiaeth am ddim

Ffôn: +44 (0)844 543 0000

Ffacs: +44 (0)20 7294 2413

Cyhoeddwyd gan City & Guilds

5-6 Giltspur Street

Llundain EC1A 9DD

Ffôn +44 (0)844 543 0000

Ffacs +44 (0)20 7294 2413

www.cityandguilds.com

learnersupport@cityandguilds.com

**Mae City & Guilds yn un o nodau
masnach City & Guilds Limited.**

Am City & Guilds

Fel prif sefydliad addysg alwedigaethol y DU, mae City & Guilds yn arwain y chwyldro doniau drwy ysbrydoli pobl i ddatgloi eu potensial a datblygu eu sgiliau. Rydym yn cynnig dros 500 o gymwysterau ar draws 28 diwydiant drwy 8500 o ganolfannau ledled y byd ac yn dyfarnu tua dwy filiwn o dystysgrifau bob blwyddyn. Mae City & Guilds yn cael ei gydnabod a'i barchu gan gyflogwyr ledled y byd fel arwydd o ansawdd a hyfforddiant eithriadol.

City & Guilds

Mae City & Guilds yn gweithredu o dair prif ganolfan: Llundain (yn gwasanaethu Ewrop, y Caribî a'r Americas), Johannesburg (yn gwasanaethu Affrica), a Singapore (yn gwasanaethu Asia, Awstralia a Seland Newydd). Mae City & Guilds hefyd yn cynnwys y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (cymwysterau rheolaeth ac arweinyddiaeth) Cymwysterau Gwasanaethau Tir City & Guilds, y Ganolfan Datblygu Sgiliau (mae CSD yn gweithio i wella polisïau ac ymarfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol ledled y byd) a Chynorthwy-ydd Dysgu (e-portffolio ar-lein).

Cyfle cyfartal

Mae City & Guilds yn cefnogi'n llwyr yr egwyddor o gyfleoedd cyfartal ac rydym yn ymrwymedig i fodloni'r egwyddor hon yn ein holl weithgareddau a'n deunydd cyhoeddedig. Mae copi o'n datganiad polisi cyfleoedd cyfartal ar gael ar ein gwefan.

Hawlfraint

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir adeg ei gyhoeddi. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, ac mae'n cadw'r hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd. Ni all City & Guilds dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Fodd bynnag, caiff canolfannau cymeradwy City & Guilds ac ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau City & Guilds lungopïo'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim a/neu gynnwys fersiwn PDF wedi'i gloi ohoni ar fewnrwydi canolfannau ar yr amodau canlynol:

- caiff staff canolfannau gopïo'r deunydd yn unig ar gyfer dibenion addysgu ymgeiswyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster City & Guilds, neu at ddibenion gweinyddol mewnol
- caiff ymgeiswyr gopïo'r deunydd yn unig at eu dibenion eu hunain wrth weithio tuag at gymhwyster City & Guilds.

Mae'r Amodau Copïo Safonol (gweler gwefan City & Guilds) hefyd yn berthnasol.